



Safle Carafanio a Gwersylla

AMODAU NEILLTUO LLE

Gwybodaeth Neilltuo Lle: -

Parc Gwledig Pen-bre

Pen-bre, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA16 0EJ

Rhif ffôn: 01554 742435.

Cyfeiriad e-bost: camp Pembrey@sirgar.gov.uk

At ddiben yr Amodau Neilltuo Lle hyn:

Ystyr "Carafannau a Gwersyllwyr Dros Nos" yw'r holl garafannau a gwersyllwyr ac eithrio Carafannau Tymhorol.

Mae'r amodau neilltuo lle hyn yn berthnasol i Garafannau Tymhorol a Charafannau a Gwersyllwyr Dros Nos oni nodir yn wahanol.

Ystyr "Parc" yw'r ardal a elwir yn Barc Gwledig Pen-bre a'r Safle.

Ystyr "Safle" yw'r safle carafanio a gwersylla ar gyfer Carafannau Tymhorol a Charafannau a Gwersyllwyr ad hoc.

"Mae "Y Cyngor" yn golygu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Ystyr "Telerau" yw'r Rheolau a'r Rheoliadau, yr Amodau Neilltuo Lle ac Amodau'r Parc.

Ystyr y term "cwsmeriaid" yw'r holl unigolion ac mae'n cynnwys Carafannau a Gwersyllwyr Dros Nos a Charafannau Tymhorol, a'r rheiny sy'n ymweld â'r Parc.

Mae'r Amodau Neilltuo Lle hyn yn berthnasol i Garafannau Tymhorol ac i archebion ad hoc oni nodir yn wahanol.

Neilltuo lle

Mae'n hanfodol neilltuo lle ymlaen llaw, yn enwedig ar gyfer penwythnosau, gwyliau banc ac yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst.

Pan fyddwch yn neilltuo lle, mae angen darparu manylion cyswllt a manylion cofrestru cerbydau ac mae'n rhaid **talun llawn** gan ddefnyddio arian parod neu gerdyn credyd neu gerdyn debyd.

Bydd angen i wersyllwyr tymhorol ddangos prawf o yswiriant cyn cael eu lleoli ar y safle gwersylla.

Dylai cwsmeriaid wirio eu crynodeb neilltuo lle yn drylwyr oherwydd mae'n rhaid i unrhyw gamgymeriadau gael eu cywiro o fewn 48 awr neu bydd y polisïau/taliadau arferol yn berthnasol.

Caiff pob llain ei neilltuo ar gyfer y cyfnod a archebir yn unig ac ni fydd unrhyw hawl i ddeiliadaeth y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Bydd pob cwsmer wedi'i rwymo gan yr Amodau Neilltuo Lle hyn, y Rheolau a'r Rheoliadau a Rheoliadau'r Parc.

Mynediad i'r Parc

Bydd y rhwystr mynediad i'r Parc yn agor yn awtomatig. **RHAID I YRWYR BEIDIO Â** mynd trwy'r rhwystr hyd nes y bydd wedi **AGOR YN LLAWN** ac wedi gorffen symud. Mae'n rhaid i yrwyr fynd trwy'r rhwystr a **PHEIDIO Â STOPIO** hyd nes y bydd eu cerbydau a'u carafannau yn gwbl glir o ardal y rhwystr.

Mynediad i'r safle gweryslla

Gyrrwch tuag at y rhwystr yn araf. Mae'r rhwystr yn gweithredu drwy system adnabod rhifau cofrestru cerbydau. Os nad ydych wedi darparu'r rhif cofrestru cywir ar gyfer eich cerbyd, ni fyddwch yn gallu cael mynediad i'r safle gweryslla. Bydd yn rhaid ichi aros wrth y rhwystr i aelod o staff eich helpu. Ni chaniateir ichi ddod i'r safle gweryslla ar ôl 8pm ar y dyddiad y byddwch yn cyrraedd nac ar ôl 10pm yn ystod eich arhosiad.

Cael mynediad i'r parc

Wrth adael y Parc, bydd y rhwystr yn agor yn awtomatig wrth i gerbyd nesáu, cyhyd â'ch bod wedi rhoi'r rhif cofrestru cywir ar gyfer eich cerbyd. Wrth i'r rhwystr godi, mae'n rhaid i yrwyr sicrhau eu bod yn stopio ar bellter diogel o'r rhwystr gan ganiatáu iddo agor yn ddirwystr. Unwaith eto, **RHAID I YRWYR BEIDIO Â** mynd trwy'r rhwystr hyd nes y bydd wedi **AGOR YN LLAWN** ac wedi gorffen symud. Os bydd unrhyw broblemau, gwasgwch yr intercom. Ni ellir ad-dalu unrhyw docynnau parcio a brynir.

Bydd y rhwystr wrth fynedfa'r Safle yn cael ei gloi am 22.00 o'r gloch. Bydd pob cerbyd sy'n dymuno dod i mewn ar ôl yr amser hwn yn cael ei wrthod a bydd angen iddo barcio ger y parc tan y bore canlynol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyflwyno mesurau diogelwch ychwanegol ar unrhyw bryd.

Hyd Arhosiad - Pebyll

Caniateir i wersyllwyr aros am 14 noson ar y mwyaf fel arfer, ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'ch symud i leoliad arall bob 7 noson os bydd angen er mwyn lleihau difrod i'r tir gymaint â phosibl.

Hyd yr arhosiad ar gyfer carafannau/cartrefi modur

Caniateir i garafannau aros am 27 noson ar y mwyaf, ac eithrio Carafannau Tymhorol.

Maint Grŵp / Cyfyngiadau Oedran (ac eithrio raliau)

Caniateir neilltuo lle ar gyfer grŵp o 3 uned ar y mwyaf gyda dim mwy na 6 unigolyn ym mhob uned. Gallai'r Cyngor ystyried ceisiadau am neilltuo lle i grŵp mwy o faint lle bo'n briodol. Ni dderbynnir unigolion dan 18 oed oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn cyfrifol dros 21 oed a bod o leiaf 1 oedolyn i bob 3 pherson dan 18 oed, neu fod arweinwyr cymwysedig clwb neu sefydliad cydnabyddedig yno, a fydd yn gyfrifol am eu hymddygiad. Pan fyddwch yn neilltuo lle, cyfrifir prisiau ar sail pris fesul uned a sawl person sy'n aros yn yr uned. Os bydd y nifer hwn yn cynyddu, rhowch wybod i'r Ganolfan Ymwelwyr a thalu unrhyw ychwanegiad sy'n ddyledus. Mae hwn yn barc ar gyfer carafannau teithiol ac ni allwn dderbyn y rheiny sy'n defnyddio carafannau, pebyll, neu gartrefi modur at ddibenion byw neu gyflogaeth.

Raliau Clwb/Cwmnïau Teithio/Grwpiau sydd wedi'u sefydlu'n ffurfiol

Yn ôl disgrisiwn y rheolwyr, mae'n bosibl y derbynnir archebion ymlaen llaw. Caniateir grwpiau yn unol â'r meini prawf a amlinellwyd yn yr adran maint grŵp/cyfyngiadau oedran. Derbynnir archebion preifat gan deuluoedd a grwpiau o ffrindiau yn ôl disgrisiwn rheolwyr y Parc yn unig.

Canslo/Ad-Daliadau

Bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno canslo ei le roi o leiaf 72 awr o rybudd ysgrifenedig (trwy lythyr neu neges e-bost), cyn y dyddiad cyrraedd. Bydd hyn yn caniatáu i'r holl wersyllwyr gadw llygad ar ragolygon tywydd 72 diwrnod a allai effeithio ar eu harhosiad. Os rhoddir mwy na 72 awr o rybudd, gellir aildrefnu'r arhosiad ar gyfer dyddiad arall sydd ar gael yn ystod y tymor neu gellir rhoi ad-daliad, gan ddidynnu ffi weinyddol o 10%.

Ni fydd achosion o ganslo o fewn 72 awr o ddyddiad cyrraedd y cwsmer yn drosglwyddadwy nac yn ad-daladwy oni bai bod amgylchiadau eithriadol fel salwch difrifol neu farwolaeth yn y teulu. (Mae'n rhaid anfon dogfennau priodol e.e. nodyn meddygol, er mwyn prosesu'r ad-daliad hwn, a didynnir ffi weinyddol o 10%.)

Cynghorir cwsmeriaid i drefnu yswiriant i'w diogelu os bydd angen canslo.

Ni fydd unrhyw ad-daliadau neu ostyngiad o ran ffioedd os na fydd y cyfleusterau/atyniadau ar gael yn ystod eich arhosiad. Mae'r perchennog yn cadw'r hawl i newid, i addasu, i ganslo neu i gau cyfleusterau/atyniadau heb rybudd.

At ddibenion y paragraffau sy'n ymwneud â chanslo, bydd 72 awr yn cael ei gyfrif hyd at 1pm ar y diwrnod cyrraedd. Bydd achosion o ganslo o fewn 72 awr o ddyddiad cyrraedd y cwsmer yn golygu bod yr archeb gyfan yn cael ei cholli ac **ni ellir rhoi ad-daliadau rhannol**.

Methu â chyrraedd

Ni fydd hawl i gael ad-daliad os na fyddwch yn cyrraedd ar y dyddiad cyrraedd a drefnwyd am unrhyw reswm heb ganslo'n ysgrifenedig yn unol â'r Amodau Neilltuo Lle.

Ymestyn hyd arhosiad

Gellir trefnu bod arhosiad yn cael ei ymestyn, cyhyd â bod lle ar gael a hefyd efallai y bydd yn rhaid symud llain, ond nid oes sicrwydd y gellir ymestyn hyd arhosiad y tu hwnt i'r dyddiad a archebwyd. Os hoffech ymestyn hyd eich arhosiad, gofynnwch i staff y Ganolfan Ymwelwyr cyn gynted â phosibl.

Rhestr aros

O ran dyddiadau pan fydd pob llain wedi'i neilltuo, gellir ychwanegu cwsmeriaid at restr aros a rhoddir gwybod iddynt am unrhyw leoedd gwag dros y ffôn, yn ôl y drefn ar y rhestr aros lle bo'n bosibl. Dim ond un ymgais i gysylltu dros y ffôn fydd yn cael ei wneud cyn symud ymlaen i'r cwsmer nesaf ar y rhestr aros a rhoddir lleiniau i'r ymatebwr cyntaf sy'n talu.

Dyrannu safle

Bydd unigolion yn cael eu lleoli ar ôl cyrraedd ac mae'n rhaid iddynt aros o fewn y safle a ddyrannwyd yn unol â'r cynllun/diagram a ddarperir. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i wersyllwyr symud eu pebyll neu eu cerbydau os ydym o'r farn y gallent achosi perygl iechyd a diogelwch neu amharu ar breifatrwydd gweryllwyr eraill. Caniateir un car yn unig fesul llain.

Os yw'r unedau'n fawr iawn, bydd angen iddynt sicrhau bod y parth diogelwch 3 metr yn cael ei gynnal bob amser. Efallai y bydd angen archebu dwy lain; gofynnwch am hyn wrth archebu.

Cyrraedd/gadael yn hwyr

Mae croeso ichi gyrraedd o 1.00pm ymlaen. Ar ôl cyrraedd, cofiwch gofnodi eich bod wedi cyrraedd yn y bwth cofrestru wrth fynedfa'r safle gweryslla. Dim ond unigolion ac anifeiliaid anwes a ddatganwyd a gaiff aros. Ni fydd lle ar gael os byddwch yn cyrraedd yn gynnar. Ni cheir mynediad os byddwch yn cyrraedd ar ôl 8pm oni bai y trefnwyd a chytunwyd ar hynny ymlaen llaw gan reolwyr y safle gweryslla.

Adlenni/Carafannau/Pebyll ôl-gerbyd

Rydym yn caniatáu ichi osod adlenni, ond mae'n rhaid nodi eich dymuniad i osod adlen wrth archebu lle. Yn anffodus ni allwn warantu safle addas ar gyfer adlen i wersyllwyr, yn enwedig ar adegau prysur. Cynfasau llawr anadladwy yn unig a ganiateir ac mae'n rhaid peidio â gosod rygiau/matiau arnynt. Ni chaniateir gwresogyddion chwythu trydanol mewn adlenni. I'r rheiny sy'n aros am fwy na 7 diwrnod, mae'n rhaid gwaredu cynfasau llawr adlenni am gyfnod digonol er mwyn gadael i'r borfa dyfu eto.

Tanau/Barbeciwiau

Ni chaniateir tanau gwerysll agored ar unrhyw adeg yn y parc a'r safle gweryslla. Caniateir barbeciwiau neu byllau tân bach sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain cyn belled ag y bo ganddynt glawr amddiffynol a giard o'u hamgylch i atal llwch rhag chwythu ac nad ydynt yn aflonyddu ar bobl eraill. Ni chaniateir ichi osod barbeciwiau na phyllau tân bach yn uniongyrchol ar y tir. Mae'n rhaid diffodd barbeciwiau a phyllau tân yn llwyr ar ôl eu defnyddio a gwaredu'r lludw mewn cynwysyddion priodol ar y Safle, ac NID MEWN PERTHI NAC ARDALOEDD GLASWELLT. Ni chaniateir tân gwyllt na choelcerthi

Os bydd llwch yn difrodi cerbydau neu eiddo cwsmer arall, bydd angen i'r mater gael ei ddatrys rhwng y ddau barti dan sylw.

Ni chaniateir defnyddio barbeciwiau tafladwy ar y Safle oni bai eu bod 300mm (1 droedfedd) oddi ar y llawr oherwydd eu bod yn llosgi glaswellt ac yn achosi perygl.

Gasebos /Adlenni/Pebyll

Mae'n rhaid cadw gasebos, adlenni a phebyll o fewn y llain a neilltuwyd. Cynfasau llawr anadladwy a ganiateir yn unig. Ni cheir gosod rygiau/matiau neu eitemau tebyg ar ben cynfasau llawr anadladwy. Ni chaniateir gwresogyddion chwythu trydanol mewn adlenni.

Anifeiliaid anwes

Caniateir cŵn ufudd ar dennyn, heblaw am fridiau a ystyrir yn beryglus e.e. ni chaniateir y bridiau Daeargi Pydew (Pit Bull Terrier); Tosa Japaneaidd; Dogo Argentino; a Fila Braziliara. Caniateir 3 chi ar y mwyaf fesul lle a neilltuir ac mae'n rhaid i bob perchennog ci gydymffurfio â Rheolau a Rheoliadau'r Safle a'r Parc.

Ni chaniateir cathod yn y safle gweryslla.

Cerbydau

Caniateir un car fesul llain ac mae'n rhaid ei gofrestru gyda staff y Ganolfan Ymwelwyr. Mae'n rhaid i bob cerbyd ychwanegol gael ei gofrestru gyda'r Ganolfan Ymwelwyr hefyd gan dalu'r tâl a godir ar gyfer cerbyd ychwanegol fesul noson a pharcio yn yr ardal barcio ddynodedig. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal ceir a cherbydau eraill rhag cael mynediad i'r ardal bebyll lle bo'n briodol. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu gyfarwyddo perchennogion y cerbydau i symud eu cerbydau o'r Parc a'r Safle.

Mae gan gartrefi modur hawl i gael cerbyd ychwanegol heb dalu tâl ychwanegol.

Ni chaniateir i unrhyw berson gysgu mewn cerbyd nad yw wedi'i gynllunio at y diben hwnnw.

Gadael

Mae'n rhaid gadael pob safle erbyn 12 canol dydd ar y diwrnod gadael. Os hoffech adael yn hwyrach, cysylltwch â staff y Ganolfan Ymwelwyr i weld a ellir trefnu amser gadael hwyrach. **Ni roddir ad-daliadau am adael yn gynnar.**

Tywydd gwlyb a rhesymau eraill dros ganslo

Ni roddir ad-daliadau os bydd tywydd gwlyb yn arwain at adael yn gynnar neu ganslo'n hwyr nac ychwaith am ffactorau amgylcheddol eraill y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu gyfyngu ar neilltuo lleoedd ar unrhyw adeg heb rybudd. Os bydd y rheolwyr yn gwneud hyn, rhoddir ad-daliad llawn neu gellir neilltuo dyddiad arall, yn amodol ar yr hyn sydd ar gael, ond ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy o dan unrhyw amgylchiadau.

Prisiau a thalu

Mae'r holl brisiau sydd wedi'u cyhoeddi yn cynnwys TAW a gellir eu newid heb roi rhybudd ymlaen llaw. Mae'n rhaid gwneud y taliad ar alwad neu'n unol ag unrhyw gytundeb ysgrifenedig a wneir gyda'r Cyngor. Ni fydd gan unrhyw berson hawl i aros ar ei lain oni bai bod taliad llawn wedi'i wneud.

Rheolau a rheoliadau

Mae copi o Reolau a Rheoliadau'r Parc ar gael adeg neilltuo lle neu yn y Ganolfan Ymwelwyr yn ystod eich arhosiad (os na dderbyniwyd copi yn flaenorol). Mae'r unigolyn sy'n neilltuo'r lle yn gyfrifol am ymddygiad ei grŵp a bydd ei ymwelwyr yn rhwym i'r Amodau Neilltuo Lle a'r Rheolau a'r Rheoliadau.

Mae'n rhaid i gwsmeriaid ar y safle gydymffurfio â Rheolau a Rheoliadau'r Parc.

Gall methu â gwneud hynny arwain at gael rhybudd llafar gan staff y Cyngor, hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i adael y safle o fewn 2 awr heb ad-daliad, gwrthod neilltuo lle yn y dyfodol a/neu gyflwyno adroddiad ffurfiol i Wasanaeth yr Heddlu.

Bydd y camau a gymerir yn adlewyrchu natur a difrifoldeb digwyddiad ac mae'n bosibl na fyddant yn dilyn y drefn a nodir uchod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un sydd wedi torri Rheolau a Rheoliadau'r Safle a/neu'r Parc, wedi torri deddfau lleol, wedi cael cais i adael y safle'n flaenorol neu wedi cael ei wrthod rhag dod i mewn i'r safle'n flaenorol. Mae'n rhaid i gwsmeriaid sicrhau bod eu heiddo'n ddiogel ac wedi'i yswirio'n llawn rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl.

Defnyddio'r llain

Mae'n rhaid i'r llain gael ei defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r llain honno ac ni ddylai meddianwyr dresmasu na rhwystro'r parth diogelwch 3 metr o amgylch pob llain gyda cherbydau a phebyll ac ati.

Pan na fydd y meddiannwr ar y safle, dim ond y poteli nwy sy'n ffitio yn locer nwy yr uned a ganiateir. Mae'n rhaid diogelu meddianwyr carafannau ac mae diogelwch personol yn hollbwysig. Mae'n rhaid i'r holl feddianwyr gadw a chynnal offer diffodd tân ac mae'n rhaid cynnal a chadw'r synwryddion mwg yn y garafán yn rheolaidd. Argymhellir y dylid cynnal archwiliadau blynyddol ar y ffliwiau nwy a'r system awyru a dylid hefyd wirio systemau trydanol yn rheolaidd.

Gwaith adeiladu

O bryd i'w gilydd, bydd angen gwneud gwaith adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw yn y parc, y safle neu yng nghyffiniau'r parc, a bydd y rheolwyr yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi lle bynnag y bo modd. Pan fydd angen gwneud gwaith o'r fath, ni fydd hyn yn rhoi hawl i unrhyw un neu unrhyw ddeiliad llain gael ad-daliad yn llawn neu'n rhannol.

Dewis eich Llain

Mae modd ichi ddewis eich llain; bydd hyd at 3 llain ar gael ar gyfer yr opsiwn hwn. Weithiau mae amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth sy'n golygu efallai na fydd eich dewis o ran llain ar gael. Yn yr achos hwn byddwn bob amser yn ceisio diwallu eich dewis o ran yr hyn sydd orau gennych. Os nad ydych yn dewis yr opsiwn hwn, bydd eich llain yn cael ei dyrannu ichi ar y diwrnod cyrraedd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid, i addasu, i ychwanegu at neu i dynnu yn ôl yr Amodau Neilltuo Lle hyn heb rybudd ymlaen llaw.